**Rhif: WG42061**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

## Canllawiau fframwaith drafft ar ymwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol

Dyddiad cyhoeddi: 9 Chwefror 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80082-760-8

# Canllawiau fframwaith drafft ar ymwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad ar fframwaith drafft Llywodraeth Cymru ar ymwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol.

**Y camau y mae angen eu cymryd**

Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:
Y Gangen Iechyd a Llesiant
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn
https://llyw.cymru/addysg-a-sgiliau

**Dogfennau cysylltiedig**

Dogefn ymgynghori Llywodraeth Cymru – Canllawiau fframwaith drafft ar ymwreiddio dull ysgol gyfan
https://llyw.cymru/sefydlu-dull-ysgol-gyfan-o-ymdrin-ag-iechyd-lles-meddyliol?_

# Cynnwys

1. Cefndir
2. Yr ymgynghoriad
3. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
4. Ymatebwyr
5. Y camau nesaf

## 1. Cefndir

1.1 Yn gynnar yn 2018, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad Cadernid Meddwl 1, a nododd fod angen gwneud newid sylweddol i'r cymorth emosiynol ac iechyd meddwl a roddir i blant a phobl ifanc. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion, ac roedd sawl un ohonynt yn ymwneud â rhoi cymorth mewn lleoliadau addysg a datblygu dull ysgol gyfan (fel rhan o system gyfan ehangach) o ddiwallu anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc.

1.2 Yn ddiweddarach yn 2018, daeth y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at ei gilydd i ymgynnull grŵp o arbenigwyr o feysydd iechyd, addysg a'r trydydd sector, i'w cynghori ar y gwaith sydd ei angen er mwyn ymwreiddio dulliau ysgol gyfan ledled Cymru. Un o ymrwymiadau allweddol y grŵp oedd datblygu fframwaith ar gyfer dull ysgol gyfan er mwyn rhoi canllawiau i ysgolion.

1.3 Bwriedir i'r fframwaith canlyniadol ddarparu adnodd gwerthfawr i ysgolion ac eraill wrth ddatblygu a gweithredu eu dulliau ysgol gyfan eu hunain, gan hyrwyddo darpariaeth gyson a thegwch i bobl a phobl ifanc. Caiff ei gefnogi gan amrywiaeth o adnoddau eraill y gall ysgolion eu defnyddio, megis pecyn cymorth o ymyriadau cyffredinol a phenodol, a deunyddiau hyfforddiant i athrawon ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys iechyd meddwl a lles emosiynol, datblygiad plant a chyflyrau niwroddatblygiadol.

## 2. Ymgynghori

2.1. Lansiwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar y fframwaith newydd ar 8 Gorffennaf a daeth i ben ar 30 Medi. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu barn ar ba mor eglur a defnyddiol y mae canllawiau'r fframwaith er mwyn helpu i ymwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol.

2.2 Cafodd y prif ymgynghoriad ei gynnal ar-lein ac roedd yn gofyn saith cwestiwn penodol:

• I ba raddau yr ydych yn cytuno y bydd y canllawiau'n hyrwyddo dulliau ysgol gyfan cyson,
sy'n cefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl pob dysgwr ac aelod o staff?

• I ba raddau yr ydych yn cytuno bod y canllawiau yn rhoi'r lefel gywir o gymorth i staff ysgol ac uwch-dimau arwain er mwyn datblygu ac ymwreiddio arferion gorau ar gyfer darparu dull ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol ac iechyd meddwl?

- I ba raddau yr ydych yn cytuno bod y canllawiau yn rhoi digon o gyfarwyddyd i hyrwyddo cydweithredu rhwng ysgolion a phartneriaid allweddol megis cyrff statudol, y trydydd sector a rhieni/gofalwyr?

- I ba raddau yr ydych yn cytuno bod y canllawiau yn cynnig y cydbwysedd cywir rhwng canolbwyntio ar hyrwyddo a meithrin lles emosiynol a diwallu anghenion y rhai sydd angen cymorth penodol ar gyfer eu hiechyd meddwl?

- Yn dilyn cyflwyno dysgu o bell o ganlyniad i Covid-19, esboniwch pa newidiadau (os o gwbl) y gellid eu gwneud i'r canllawiau er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi dull dysgu cyfunol sy’n cyfuno dysgu o bell a dysgu traddodiadol yn y dosbarth?

- Ar ôl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, pa weithgarwch gweithredu (e.e. hyfforddiant a/neu godi ymwybyddiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd penodol ) y bydd ei angen yn eich barn chi?

- A yw ein cynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ddigon i sicrhau bod y canllawiau yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol? Yn benodol, ai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sydd yn y sefyllfa orau i ddal yr holl randdeiliaid i gyfrif?

Roedd cwestiynau pellach yn gofyn i'r ymatebwyr ddweud a oeddent o'r farn y gallai'r canllawiau gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg. Cafodd yr ymatebwyr hefyd eu gwahodd i wneud unrhyw sylwadau ychwanegol nad oedd y cwestiynau penodol eraill wedi ymdrin â nhw.

2.4 Cefnogwyd yr ymgynghoriad gan strategaeth gyfathrebu, a gwnaeth swyddogion hyrwyddo ymgysylltiad â'r ymgynghoriad ymhlith grwpiau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cyrff proffesiynol fel rhwydwaith CAMHS a rhieni/gofalwyr, wedi'i hwyluso gan Parentkind; hyrwyddo'r ymgynghoriad mewn cyhoeddiadau allweddol fel y Bwletin Gwaith Ieuenctid; a thrydariadau ar y cyfryngau cymdeithasol.

## 3. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.1 Cafwyd **142** o ymatebion i'r ymgynghoriad – 81 drwy system ymgynghori ar-lein Llywodraeth Cymru a 61 drwy e-bost. Cyflwynwyd dau ymateb yn Gymraeg. Daeth y mwyafrif o'r ymatebion gan sefydliadau addysg penodol (er enghraifft, CLILC, CCAC, ac unigolion yn gweithio mewn awdurdodau lleol) a sefydliadau iechyd (er enghraifft, Byrddau Iechyd Lleol ac unigolion yn gweithio yn y sector). Ymhlith yr ymatebwyr eraill roedd Estyn; Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru; ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig (a staff cysylltiedig fel nyrsys ysgolion); undebau athrawon; prifysgolion a cholegau;

rhieni, gofalwyr, a phlant a phobl ifanc; y trydydd sector; cyrff cenedlaethol eraill ac 13 o ymatebwyr a ddewisodd aros yn ddienw.

3.2 Ni wnaeth pob ymatebwr sylw ar bob cwestiwn a dewisodd rhai beidio ag ymateb o gwbl – gan nodi, yn hytrach, syniadau, sylwadau a diwygiadau i'r testun. Dewisodd rhai ymatebwyr dynnu sylw at eu gweithgarwch a'u gwaith eu hunain yn y maes, a'i hyrwyddo, ac er y bydd eu sylwadau yn llywio'r ymgynghoriad, ni fyddant yn cael eu cynnwys fel diwygiadau yn y ddogfen fframwaith derfynol a gyhoeddir.

3.3 Dewisodd nifer o ymatebwyr hefyd wneud sylwadau ar gynhyrchu adnoddau a gweithgarwch arall i gefnogi'r broses o roi'r fframwaith ar waith, h.y. drwy lunio posteri i godi ymwybyddiaeth a gwaith i fynd i'r afael â materion penodol fel anhwylderau bwyta.

3.4 Nodir mwy o fanylion ar gyfraddau ymateb i'r cwestiynau unigol (yn ogystal ag enghreifftiau o'r ymatebion eu hunain) isod:

**Cwestiwn 1 – I ba raddau yr ydych yn credu y bydd y canllawiau'n hyrwyddo dulliau ysgol gyfan cyson, sy'n cefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl pob dysgwr ac aelod o staff?**

Cafwyd 124 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd ychydig dros 70% yn cytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

*'Mae'r canllawiau newydd i'w croesawu'n fawr. Mae'n arbennig o galonogol gweld y bydd cydymffurfio yn ofyniad statudol i gyrff llywodraethu ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir ac i awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd angen i ysgolion gael gwybod am yr amrywiol ddisgwyliadau sydd arnynt yn glir ac mewn fformat hygyrch, sy'n cysylltu'r newidiadau cydgyfeiriol niferus y mae disgwyl i ysgolion ymateb iddynt, fel y cwricwlwm newydd, trefniadau ymarferol ar gyfer amgylcheddau sy'n ddiogel o ran COVID-19, dyletswyddau ADY ac eraill.'*

Ar y llaw arall, roedd 28.3% yn anghytuno i raddau neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn. Dyma ambell enghraifft o'u safbwyntiau:

*'Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu arbrofol a gweithgareddau lle gall pobl ifanc feithrin hunan-barch, llythrennedd emosiynol a'r gallu i wneud penderfyniadau moesegol fel rhan annatod o'r broses.'*
*'Mae angen mwy o bwyslais ar sicrhau bod dysgu proffesiynol parhaus ar gael i uwch arweinwyr a llywodraethwyr.'*

*‘Mae adnodd archwilio/hunanwerthuso o ryw fath ar goll o'r canllawiau, i alluogi ysgolion i adolygu eu cryfderau a'u gwendidau yn erbyn pwyntiau penodol.'*
*‘Mae angen model ymarferol o arferion gorau yn y canllawiau, a meini prawf llwyddiant clir y gall ysgol asesu ei chynnydd yn eu herbyn.’*
*‘Mae diffyg ffocws yn y canllawiau ar waith uniongyrchol gyda rhieni a gofalwyr a allai fod yn wynebui anawsterau iechyd meddwl.’*

**Cwestiwn 2 – I ba raddau yr ydych yn cytuno bod y canllawiau yn rhoi'r lefel gywir o gymorth i staff ysgol ac uwch-dimau arwain er mwyn datblygu ac ymwreiddio arferion gorau ar gyfer darparu dull ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol ac iechyd meddwl?**

Cafwyd 123 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 62.6% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

*‘Mae'r canllawiau'n rhoi sail briodol i ysgolion a chyrff llywodraethu weithredu'n gyson, ond mae risg y bydd rhai yn gweithredu heb fanteisio'n llawn ar adnoddau ac arbenigedd y system ehangach.’*

*‘Mae'r canllawiau, drwy'r cyfrifoldebau statudol a roddir ar awdurdodau lleol, yn caniatáu i awdurdodau lleol sicrhau bod ysgolion a chyrff llywodraethu yn cael eu cefnogi yn y ffordd orau i fabwysiadu dull system gyfan*.'

Ar y llaw arall, roedd 29.3% yn anghytuno i raddau neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn. Dyma ambell enghraifft o'u safbwyntiau:

*‘Nid yw'n glir sut y bydd adnoddau a chymorth i ysgolion yn cyfateb i lefel y disgwyliadau sydd ar ysgolion.’*

*‘Mae'r canllawiau drafft yn fanwl o anghenraid ond maent bron yn 50 tudalen o hyd. Yn fy marn i felly, mae'n bosibl y byddai'r canllawiau'n elwa ar negeseuon clir a siartiau llif ar y dechrau neu wedi'u cynnwys mewn dogfen ar wahân, fel y gall staff gyfeirio atynt yn hawdd, a throi at y brif ddogfen i gael mwy o fanylion.'*

*‘Mae angen i'r canllawiau gynnwys camau gweithredu mwy penodol a chyfrifoldebau ar gyfer rhanddeiliaid allweddol o dan yr 'elfennau' allweddol o ddatblygu dull ysgol gyfan. Er enghraifft, defnyddio ffiniau ar sail dystiolaeth Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (WNHSS)*

*i roi ffocws i'r gwaith datblygu e.e. amgylchedd, lles staff, arweinyddiaeth ac ati, ac ymwreiddio llais y dysgwr drwyddi draw ar yr un pryd.'*

**Cwestiwn 3 – I ba raddau yr ydych yn cytuno bod y canllawiau yn rhoi digon o gyfarwyddyd i hyrwyddo cydweithrediad rhwng ysgolion a phartneriaid allweddol megis cyrff statudol, y trydydd sector a rhieni/gofalwyr?**

Cafwyd 125 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 57.6% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

*'Bydd y canllawiau'n helpu ysgolion i feddwl mewn ffordd wahanol a symud oddi wrth y syniad mai cyrhaeddiad academaidd, a'u rôl wrth gyflwyno'r cwricwlwm i gyflawni hyn, yw'r rhan bwysicaf o'u rôl.'*

*'Mae'n gadarnhaol gweld bod asiantaethau gwahanol yn cael eu hannog i gydweithio (e.e., iechyd ac addysg). Fodd bynnag, byddai angen canllawiau clir ar gyfer y cyfrifoldeb o ariannu a threfnu'r cydweithio hwn er mwyn sicrhau bod y dull yn gyson ledled Cymru.'*

Ar y llaw arall, roedd 32.8% yn anghytuno i raddau neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn. Dyma ambell enghraifft o'u safbwyntiau:

Mae angen i'r canllawiau gyfeirio mwy at yr holl staff addysgu a'r staff nad ydynt yn addysgu, yr holl lywodraethwyr a'r rhieni a'r gofalwyr a sut y gall ac y dylai awdurdodau lleol weithio'n gydweithredol gydag ysgolion a'u cyrff llywodraethu, i gefnogi eu hanghenion iechyd meddwl ar y cyd.

*'Ar eu ffurf bresennol, nid yw'r canllawiau ynddynt eu hunain yn debygol o hyrwyddo dull ysgol gyfan cyson ar draws amrywiaeth o ysgolion. Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r ffactorau o fewn ysgolion unigol sy'n hwyluso ac yn atal ymwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol. Mae capasiti arweinwyr ar gyfer newid, cyllid, blaenoriaethau eraill sy'n cystadlu, mynediad at arbenigwyr, diffyg gwybodaeth, anawsterau comisiynu ac ati yn ffactorau sy'n effeithio ar allu ysgolion i ymwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol. Mae angen cydnabod yr heriau hyn yn ffurfiol.'*

**Cwestiwn 4** – I ba raddau yr ydych yn cytuno bod y canllawiau yn cynnig y cydbwysedd cywir rhwng canolbwyntio ar hyrwyddo a meithrin lles emosiynol a diwallu anghenion y rhai sydd angen cymorth penodol ar gyfer eu hiechyd meddwl?

Cafwyd 122 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd ychydig dros 66% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

*'Yn ein barn ni, mae'n gadarnhaol bod y fframwaith yn tynnu sylw at hyrwyddo lles emosiynol i bob disgybl ac aelod o staff am fod rhai ysgolion ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar gymorth wedi'i dargedu yn unig, ac nid oes ganddynt lawer o ddarpariaeth gyffredinol i hyrwyddo lles pob disgybl. Hefyd, weithiau bydd ysgolion yn darparu cymorth wedi ei dargedu ond ni fydd ganddynt ddull cadarn o asesu lles disgyblion. Rydym o'r farn bod y cydbwysedd yn y ddogfen yn gywir.'*

*'Mae'r canllawiau'n caniatáu'r hyblygrwydd i addasu a newid yn unol â newidiadau personol, a newidiadau yn y system ac mewn cymdeithas. Mae COVID-19 wedi dangos inni fod y canfyddiad o ddarpariaeth 'normal' a bywyd bob dydd hefyd yn gyfnewidiol.'*

*'Mae'n galonogol gweld y gydnabyddiaeth na all ysgolion ar eu pen eu hunain ddiwallu pob angen iechyd meddwl/lles. Mae angen diffinio rolau er mwyn sicrhau bod pawb yn deall pan fydd problemau y tu allan i'w cylch gwaith.'*

Ar y llaw arall, roedd 18% yn anghytuno i raddau neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn. Dyma ambell enghraifft o'u safbwyntiau:

*'Yng nghyd-destun y ddogfen, rydym o'r farn bod angen rhoi mwy o bwyslais ar ymwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a chyfeirio llai at ymateb i anawsterau mwy cymhleth, am fod hyn yn destun trafodaeth ehangach. Byddai amlinelliad o'r ffordd y mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r fframwaith o'r gwaith arall sydd ar y gweill mewn perthynas ag iechyd meddwl yn ddefnyddiol iawn, h.y. Cymorth Cynnar a Chymorth Gwell y rhaglen Law yn Law.'*

**Cwestiwn 5 – Yn dilyn cyflwyno dysgu o bell o ganlyniad i Covid-5, esboniwch pa newidiadau (os o gwbl) y gellid eu gwneud i'r canllawiau er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi dull dysgu cyfunol sy'n cyfuno dysgu o bell a dysgu traddodiadol yn y dosbarth.**

Roedd rhai syniadau nodweddiadol yn cynnwys y canlynol:

*''Mae'n bwysig bod y canllawiau'n nodi'n glir y dylai amrywiaeth o adnoddau a chymorth ar gyfer eu lles emosiynol a meddyliol fod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yn yr ysgol, a gartref hefyd pan fydd hynny'n angenrheidiol.'*

*‘Mae un grŵp penodol o ddysgwyr a allai elwa'n fawr ar ddull dysgu cyfunol. Fel y rhestrir yn 6.7 Darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion penodol, gallai'r disgyblion yn y categori ‘Yn absennol o'r ysgol yn fynych a'r rhai sy'n wynebu unigrwydd ac ynysu’ gael gafael ar y cymorth priodol pe bai protocolau ar waith i alluogi gweithgareddau ar-lein cydamseredig.’*

*‘Yn unol â rhannau eraill o'r canllawiau drafft hyn sy'n rhoi enghreifftiau o arferion da i ddangos ffyrdd o weithio, gallai'r ddogfen hefyd ddarparu astudiaethau achos arferion da, os oes rhai, mewn ysgolion sydd ag enghreifftiau mwy llwyddiannus o sefydlu dulliau dysgu cyfunol sy'n cefnogi dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles, fel y gall ysgolion eraill ddysgu o'u hesiampl.’*

**Cwestiwn 6 – Ar ôl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, pa weithgarwch gweithredu (hyfforddiant a/neu godi ymwybyddiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, er enghraifft) y bydd ei angen yn eich barn chi?**

Nodir detholiad o safbwyntiau isod:

*‘Mae'n bwysig bod y canllawiau hyn yn cael eu cyfleu i bob un o'r cynulleidfaoedd bwriadedig a restrir ar dudalen 6. Dylent gael eu rhannu'n eang gan ddefnyddio sianeli cyfathrebu profedig. Gallai fod yn ddefnyddiol llunio adnoddau, fel posteri sy'n crynhoi'r cynnwys, y gellid eu dosbarthu i bob ysgol ac uned cyfeirio disgyblion er mwyn iddynt eu harddangos mewn ardaloedd cymunedol.'*

*‘Hyfforddiant i lywodraethwyr ac aelodau staff yr ysgol, a chodi ymwybyddiaeth rhieni a gofalwyr, yn ogystal ag asiantaethau a fyddai'n cyfrannu at waith iechyd meddwl a lles.’*

*‘Yn wir, bydd angen nifer o fentrau er mwyn sicrhau y caiff y canllawiau hyn eu rhoi ar waith mewn ffordd ystyrlon, a bydd angen i'r rhain hefyd ddiwallu'r amrywiaeth o anghenion sydd gan gymuned yr ysgol gyfan. Bydd y rhain yn cynnwys gwybodaeth a ffynonellau o wybodaeth academaidd a chymorth, a gofynion hyfforddi, enghreifftiau pellach o ddarpariaeth gyffredinol ac yna gymorth manwl wedi'i dargedu ar gyfer y rheini sydd ag angen penodol.'*

*‘Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymgynghori ag amrywiaeth o bartneriaid priodol, gan gynnwys y Trydydd Sector, er mwyn sicrhau y*

*gall y cyfoeth o brofiad a gwybodaeth ym maes iechyd meddwl gyfrannu at y pecyn cyffredinol o fesurau darparu a gynigir.'*

**Cwestiwn 7 – A yw ein cynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ddigon i sicrhau bod y canllawiau yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol? Yn benodol, ai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sydd yn y sefyllfa orau i ddal yr holl randdeiliaid i gyfrif?**

Cafwyd safbwyntiau eang yma:

'Byddai bwrdd partneriaeth lleol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn fforwm mwy priodol ond byddai angen gofyn i'r maes addysg ymgysylltu.'
'Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd yn y sefyllfa orau. Byddai'r Comisiynydd Plant hefyd yn chwarae rôl allweddol. Dylai plant a phobl ifanc hefyd gael eu cynnwys.'
'Un bwrdd i gwmpasu pob rhanbarth fel bod pob plentyn, athro a phennaeth yn cael yr un profiad, ni waeth ble y bydd yr ysgol. Byddai'n arbed llawer o arian hefyd.'
'Na - Awdurdodau Lleol a Chonsortia ar y cyd. '
'Mae angen i hyn fod yn drafodaeth ehangach o lawer ar lefel genedlaethol a rhaid i hyn gael ei ariannu'n llawn. Nid oes llawer o ddiben cael mesurau atebolrwydd os nad oes gan yr ysgolion yr adnoddau i ariannu'r ddarpariaeth hon.'
'Na - dylid datganoli hyn i Fyrddau Llywodraethwyr ac adrodd ar weithgareddau gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad blynyddol.'
'Yn ein barn ni, Estyn, Cynghorwyr Herio a'r awdurdod lleol (gan ddibynnu ar drefniadau lleol) sydd yn y sefyllfa orau i ddwyn ysgolion i gyfrif. Efallai na fydd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol y capasiti i ymwneud ag ysgolion unigol wrth sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu hymgorffori.'
'Rôl yr Uwch Dîm Rheoli yw sefydlu dull ysgol gyfan a bod yn gyfrifol am benderfyniadau allweddol.'

**Roedd cwestiynau 8 a 9 yn canolbwyntio ar effeithiau canllawiau'r fframwaith newydd ar y Gymraeg, yn benodol:**

**i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;**
**ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;**
**iii) p'un a ellid llunio neu newid y canllawiau fel bod mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac**

**ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**
**ii) fel na fyddai effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

'Mae'r canllawiau'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn sicrhau cydraddoldeb yn fy marn i.'
'Mae'r Gymraeg yn agwedd gref ar ymdeimlad pobl ifanc o'u hunaniaeth, a allai fod yn gysylltiedig â'u hiechyd meddwl a rhoi ymdeimlad o falchder. Gall hyn fod yn gleddyf deufiniog yn yr ystyr bod gan y Gymraeg botensial i greu rhaniadau rhwng siaradwyr Cymraeg a Saesneg, a dylid cymryd gofal i sicrhau cynhwysiant a rhyngweithio yn y ddwy iaith.
'Er mwyn sicrhau dull cenedlaethol cyfan hyderus, cytbwys, parchus a chyfartal o ymdrin â'r canllawiau, mae'n hanfodol bod pob gweminar, podlediad, fideo sy'n dangos arferion da yn cael eu cyflwyno naill ai'n ddwyieithog neu fod fersiynau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. 'Defnyddio isdeitlau yn y ddwy iaith - h.y. sicrhau cyflwynwyr sy'n cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg gan ddefnyddio isdeitlau Cymraeg a Saesneg yn briodol. Dylai adnoddau a phecynnau cymorth fod ar gael yn ddwyieithog neu dylai fod fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael'.
'Bydd angen darparwyr hyfforddiant effeithiol, ysgogol er mwyn helpu ysgolion Cymraeg. Ychydig iawn o gymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ardaloedd. Byddai rhestr briodol o ddarparwyr iechyd meddwl a lles Cymraeg eu hiaith o gymorth i ysgolion.'
'Er enghraifft, nid yw gweithlu CAMHS yn cynnwys llawer o siaradwyr Cymraeg nac adnoddau Cymraeg.
'Rhaid i'r holl ddysgu proffesiynol ac adnoddau eraill fod ar gael yn Gymraeg.'
'Cydweithredu trawsranbarthol ar rannu adnoddau Cymraeg, e.e. ELSA ac ati.'

**Roedd llawer o'r ymatebion yn trafod yr un thema ac mae'r rhain wedi'u grwpio fel a ganlyn:**

<u>Cyffredinol</u>
Byddai o gymorth pe bai rhywfaint o'r amserlen ar gyfer ei roi ar waith yn gliriach. Bydd angen ymdrech ac amser ychwanegol i'w roi ar waith. Dylid disgrifio hyn yn glir gan nodi disgwyliadau ynghylch faint o adnoddau ac amser y dylai ysgolion eu neilltuo er mwyn ei roi ar waith.

Dylai'r adran 'Cynulleidfa Fwriadedig' ar dudalen 6 o'r fframwaith gynnwys 'Darparwyr eiriolaeth' a gwaith cymdeithasol.

<u>Terminoleg</u>
Mae angen bod yn gliriach ynghylch sicrhau bod <u>pob</u> plentyn a pherson ifanc yn cael ei gynnwys, fel rhan o gymuned yr ysgol <u>gyfan</u>. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen arferion gorau i ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar yn y gorffennol[1]. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol cyfredol, sy'n cynnwys 'iechyd a

[1] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/meddwl-yn-gadarnhaol-iechyd-a-lles-emosiynol-mewn-ysgolion-a-lleoliadau-blynyddoedd-cynnar-y-ddogfen-gyfan.pdf

lles emosiynol' fel thema allweddol. Byddai datganiad i gadarnhau'r gydberthynas rhwng y canllawiau newydd hyn a'r canllawiau blaenorol o gymorth i bob gweithiwr proffesiynol perthnasol.

Diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o Ysgol sy'n Hyrwyddo Iechyd (WHO1998) - mae dull ysgol gyfan yn diffinio cymuned yr ysgol gyfan fel uned newid ac mae'n cynnwys gweithredu ar y cyd rhwng tair cydran ryngberthnasol: (i) cwricwlwm, addysgu a dysgu; (ii) ethos ac amgylchedd yr ysgol; (iii) partneriaethau teulu a chymuned.

Yn hytrach na defnyddio model iaith feddygol, dylid defnyddio model iaith gymdeithasol fel 'namau corfforol', 'salwch meddwl' a 'phobl sy'n profi trallod emosiynol.' Yn yr un modd, mae Anghenion Addysgol Arbennig yn bwydo i mewn i ganfyddiadau bod pobl anabl yn cael triniaeth arbennig, gan arwain at wahaniaethu. Yn hytrach, dylid defnyddio'r term Angen Dysgu Ychwanegol.

Statws statudol y ddogfen

Nid yw'r canllawiau hyn yn statudol i fyrddau iechyd, felly dylai Cylchlythyr Gweinidogol i fyrddau iechyd gyd-fynd â'r canllawiau hyn er mwyn sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn bartneriaid gweithredol mewn dulliau ysgol gyfan.

Hunanwerthuso

Mae'n braf gweld bod Llywodraeth Cymru yn datblygu Gwerthusiad Cenedlaethol ac Adnodd Gwella. Yn y cyfamser, mae'n hanfodol cael datganiad clir ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan ysgolion mewn perthynas â hunanwerthuso.

Lleoliadau heblaw ysgolion a gynhelir

Mae'r ddogfen yn cyfeirio at ysgolion yn bennaf. Rhaid iddi hefyd gyfeirio'n amlwg at y plant a'r bobl ifanc hynny sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol neu mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Gallai rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gyda strategaethau'n seiliedig ar asesiadau o anghenion y boblogaeth leol, fod yn allweddol i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hynny yn cael eu cefnogi i fanteisio ar ddulliau system gyfan.

Mwy o eglurder ynghylch y ffordd y caiff y canllawiau ar Unedau Cyfeirio Disgyblion eu cymhwyso. Er bod y canllawiau drafft yn cyfeirio at rôl athrawon sy'n gyfrifol am Unedau Cyfeirio Disgyblion yn yr adran 'Cynulleidfa Fwriadedig', o ystyried mai dim ond cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol sydd dan rwymedigaeth statudol i gyflawni dyletswyddau, anogir Llywodraeth Cymru i bennu ei bod hefyd yn disgwyl i Unedau Cyfeirio Disgyblion gydymffurfio.

Astudiaethau achos

Nid oes digon o sôn am rôl nyrsys ysgolion yn y ddogfen yn gyffredinol.

Gwnaeth un person ifanc nodi enghraifft o ysgol sydd â mentor lles penodol a gynhaliodd sesiwn fwy anffurfiol gyda'r bobl ifanc, ynghylch cynlluniau unigol ar gyfer y dyfodol er enghraifft.

Mae enghraifft o gyd-gynhyrchu mewn lleoliad ysgol rydym yn ymwybodol ohoni drwy'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yn ymwneud â choleg cymunedol yn Ne Cymru lle mae myfyrwyr, athrawon ac aelodau o staff y coleg wedi sefydlu grŵp iechyd yn yr ysgol o'r enw Grŵp y Senedd. Maent yn cydweithio i fynd i'r afael â materion iechyd drwy ddefnyddio'u hadroddiadau Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion pwrpasol.

<u>Lles staff</u>
A.6.2 Lles Staff; a fydd cyfle i gefnogi cyfleoedd goruchwylio staff a'u rhoi ar waith fel dull o gefnogi lles staff mewn 'amgylchedd diogel'? Dylai Amgylchedd yr Ysgol hefyd gyfeirio at bwysigrwydd darparu lle diogel a chroesawgar i oedolion sy'n gweithio yn yr ysgol, yn ogystal â disgyblion.

Croesawu'r gydnabyddiaeth yn y canllawiau hyn fod cysylltiad annatod rhwng lles dysgwyr a lles eu hathrawon, er bod y prif ffocws ar les y dysgwr. Byddai dogfen a fyddai'n rhoi'r un gydnabyddiaeth i'r ddau yn cynnig mwy o ddealltwriaeth o'r dull ysgol gyfan. Er enghraifft:

- Mae'r adran Darpariaeth Gyffredinol yn cyfeirio at y gydnabyddiaeth o'r cysylltiad rhwng lles dysgwr a pholisïau, gweithredoedd, cydberthnasau iach ac ati. Mae hyn yn amlwg yn gymwys i les staff hefyd, a dylai nodi hynny.
- Gallai'r Cam Cwmpasu hefyd gael ei ddefnyddio i asesu lles staff.
- Mae Adran 2 ac Atodiad 1 yn nodi'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r dogfennau polisi yn nhermau lles dysgwyr, ond nid oes unrhyw fanylion cyfatebol am y goblygiadau cyfreithiol a'r polisi o safbwynt lles staff.

Mae lles staff yn canolbwyntio i raddau helaeth ar faterion yn ymwneud â llwyth gwaith. Ymddengys na roddir unrhyw sylw i anghenion y tu hwnt i'r rhai sy'n gysylltiedig â llwyth gwaith.

<u>Cwricwlwm cyffredinol</u>
Yn yr adran ar y cwricwlwm, mae'n anghywir bod asesu a chwricwlwm wedi'u nodi ar wahân - asesiad YW'R cwricwlwm newydd. Nid yw eu hystyried yn ddau endid ar wahân wrth gyfeirio at les o gymorth. Mewn gwirionedd, mae'n hanfodol bod ysgolion yn cynllunio'u hasesiadau gan gadw lles mewn cof. Os yw'r hyn y cyfeirir ato yma yn gymwysterau, dylid nodi hynny.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi bod y Cwricwlwm Newydd a Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn allweddol er mwyn bodloni'r agwedd 'datblygu gwydnwch' ar y dull ysgol gyfan. Pryderon yn ymwneud â methiant y broses o roi'r Cwricwlwm Newydd ar waith i adlewyrchu llawer o'r egwyddorion a fynegir yn *Dyfodol Llwyddiannus*. Diffyg cyfeiriad ar lefel strategol i gydgysylltu Gwasanaethau Addysg ac Iechyd wrth ddatblygu'r cwricwlwm ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad hwn.

Dylai iechyd meddwl fod yn rhan orfodol o'r cwricwlwm newydd, ar yr un sail ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Dyma'r unig ffordd o sicrhau mynediad cyson at y dysgu hwn. Nid yw'r cynlluniau presennol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cynnwys unrhyw strategaeth genedlaethol gydgysylltiedig nac ymrwymiadau cyllid wedi'u neilltuo ar gyfer dysgu proffesiynol. Dylid mynd i'r afael â hyn ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac iechyd meddwl.

Nid oes ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i ddatblygu dull addysgegol ysgol gyfan o ymdrin â dysgu sy'n cynnwys effaith gadarnhaol dysgu yn yr awyr agored sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ac yn canolbwyntio ar ddatblygu personol.

Nid yw Bil Cwricwlwm Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n uniongyrchol at iechyd meddwl. Rydym yn gwerthfawrogi ei fod yn sôn am les, ond rhaid iddo nodi iechyd meddwl yn benodol hefyd.

<u>Cwricwlwm - Dysgu yn yr Awyr Agored</u>
Mae angen i'r canllawiau gynnwys gwybodaeth am y ffyrdd y mae'r amgylchedd naturiol yn cefnogi lles. Ni roddir digon o bwyslais ar fanteision penodol dysgu yn yr awyr agored gan gynnwys dysgu cwricwlwm yn yr awyr agored. Ymddengys yn rhesymegol y dylai dull ysgol gyfan gynnwys profiadau dysgu rheolaidd sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm awyr agored. Mae profiadau preswyl yn rhoi cyfleoedd i staff a disgyblion feithrin deilliannau dysgu a chymdeithasol cadarnhaol. Ar hyn o bryd, nid yw Addysg Gychwynnol Athrawon yn paratoi athrawon yn ddigonol i gyflwyno dysgu cwricwlwm yn yr awyr agored.

<u>Cwricwlwm - dysgu drwy brofiad</u>
Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu drwy brofiad a gweithgareddau lle gall pobl ifanc feithrin hunan-barch, llythrennedd emosiynol a'r gallu i wneud penderfyniadau moesegol. Byddai enghreifftiau'n cynnwys prosiectau cynnal a chadw beiciau, garddio neu weithgareddau i gefnogi'r amgylchedd, fel glanhau traethau a gweithgareddau crefft rhwng cenedlaethau gyda'r henoed.

Dylai sgyrsiau am les hefyd ddangos ymwybyddiaeth o gyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang a fydd yn berthnasol i lawer o'n disgyblion sydd â theulu, ffrindiau a chysylltiadau o gwmpas y byd.

<u>ADY</u>
Dylid dileu adrannau 6.7 a 6.9 a'u hymgorffori yn yr adrannau eraill. Yn ein barn ni, bydd cyflwyno'r wybodaeth yn y ffordd hon yn lleihau'r risg y bydd anghenion y plant hyn yn ôl-ystyriaeth.  P25 – dylai pwyntiau allweddol gynnwys 'Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' i gefnogi dysgu a lles yn unol â diwygio ADY.  Wrth ystyried datblygu llythrennedd iechyd meddwl disgyblion, dylai plant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd gael eu pennu fel 'cynulleidfa darged'. Atodiad 1 – eglurhad pellach am y ffordd y bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn effeithio ar y fframwaith.

<u>Estyn</u>
Er mwyn hyrwyddo cysondeb, argymhellwn gwblhau'r canllawiau â fframweithiau Estyn wedi'u diweddaru. Tra bod Fframwaith Arolygu Cyffredin presennol Estyn yn cynnwys adran dda ar Les (Adran 2.1), dylai'r canllawiau i ysgolion ac arolygwyr mewn perthynas â'r adran hon gyfeirio at y canllawiau newydd hyn ar y dull ysgol gyfan.

Bydd ysgolion am wybod beth y bydd Estyn yn chwilio amdano. Dylai hyn fod yn rhagnodol iawn ac yn seiliedig ar dargedau. A ellid gwneud mwy yma i bwysleisio elfennau hanfodol y dull ysgol gyfan a chysylltu'r rhain â fframwaith arolygu Estyn? Estyn, Cynghorwyr Herio a'r awdurdod lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddwyn ysgolion i gyfrif. Pe bai cwestiwn allweddol 1 yn fframwaith arolygu Estyn yn canolbwyntio ar les a chwestiwn allweddol 2 yn canolbwyntio ar safonau, byddai hynny'n cyfleu neges gref i ysgolion am bwysigrwydd yr agenda hon.

<u>Cydgynhyrchu</u>
Mae un o'r 'Camau Gweithredu/Gofynion Allweddol' a nodir yn y canllawiau ar dudalen 10 yn cynnwys "Dylai partneriaid/rhanddeiliaid gynnwys plant a phobl ifanc er mwyn deall y canllawiau hyn". Mae hyn yn rhoi'r argraff mai derbynwyr goddefol yn unig yw plant a phobl ifanc yn hytrach na chyfranwyr a werthfawrogir. Rydym am weld cyfeiriad cryfach at ymgysylltu'n benodol â disgyblion drwy gydol y broses. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen datganiad o bwysigrwydd a disgwyliad y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf a drwy gydol proses ysgolion o sefydlu a gweithredu eu dull ysgol gyfan.

Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys athrawon yn y broses werthuso ar hyn o bryd. Mae'r adran ar Werthuso a Chydgynhyrchu yn awgrymu mai mater i uwch arweinwyr ysgolion, dysgwyr a gofalwyr yw gwerthuso, ond nad yw'n fater i athrawon nac i staff eraill.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau'n cyfeirio at Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl ifanc. Mae adroddiad Iach a Hapus Estyn (Estyn, 2019) yn tynnu sylw at y pwyslais a roddir gan staff ac arweinwyr ar wrando ar ddisgyblion, nid dim ond rhoi systemau ar waith ar gyfer cynrychioli disgyblion.

<u>Gwerthoedd</u>
Mae A4.2 (‘Gwerthoedd’), yn egluro nad yw'r cwestiynau/datganiadau o dan bob pennawd (perthyn, effeithiolrwydd, llais) yn cael eu hateb gan yr unigolyn dan sylw yn unig, ond yn hytrach, mewn partneriaeth ag eraill.  Er enghraifft, gall Uwch Dîm Arwain Ysgol fod o'r farn ei fod yn 'rhoi lle i gael sgyrsiau, gan roi a derbyn adborth adeiladol, gweithredu ar safbwyntiau pobl eraill i’n helpu i fod cystal ag y gallwn am fwy o’r amser', ond efallai y bydd profiad athrawon, staff, plant a phobl ifanc yn yr ysgol yn wahanol iawn.

Erthygl 12 yw'r hawl i blentyn fynegi ei farn am faterion sy'n ymwneud ag ef ei hun, ac i'r farn honno gael sylw dyledus *yn unol â'i oed a'i aeddfedrwydd*. Mae'r mater hwn yn y codi yn y Tabl Gwerthoedd Craidd, sy'n awgrymu bod hawl gan ddisgyblion i ddisgwyl y gweithredir ar eu barn. Dylid newid hwn i 'roi sylw dyledus'. Yn yr un modd, yn yr adran Ethos yr Ysgol, mae angen aileirio 'maent yn mynd ati i annog adborth gan ddysgwyr a gweithredu arno' i 'maent yn mynd ati i annog adborth gan ddysgwyr a rhoi sylw dyledus iddo', neu debyg. Hefyd, mae Erthygl 27 (nid Erthygl 24) yn cydnabod hawl plentyn i gael safon bywyd sy'n addas ar gyfer ei ddatblygiad corfforol a meddyliol, sy'n wahanol i'r hawl i 'fod yn fodlon yn gorfforol ac yn feddyliol' fel y nodir ar hyn o bryd.

Mae'r tabl Gwerthoedd Craidd yn awgrymu'n ddamweiniol nad yw'r uwch arweinwyr yn gyfrifol am anghenion lles staff. Byddai'n gliriach pe bai'r adran 'athrawon/staff' yn cael eu hailenwi'n adran 'holl staff'. Mae hefyd yn werth nodi y gall ysgolion ond helpu rhieni/gofalwyr i lywio'r systemau cymorth hynny y mae ganddynt arbenigedd neu ddylanwad arnynt.

<u>Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru</u>
Er bod y fframwaith yn gysylltiedig â Chynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru, byddai'n fanteisiol pe bai'n cyfeirio'n gliriach at rôl ymarferwyr Ysgolion Iach ym mhob awdurdod, gan gynnwys eu rôl bosibl i ddarparu cymorth i ysgolion wrth iddynt sefydlu'r dull ysgol gyfan.  Mae Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru wrthi'n casglu adnoddau a hyfforddiant y gall ysgolion elwa arnynt yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles emosiynol. Gallai'r rhain gael eu rhannu â Llywodraeth Cymru er mwyn llywio'r ffordd hon o feddwl.

Adran 6.5 Darpariaeth Gyffredinol – Mae'r Cynllun Ysgolion Iach wedi'i ddisgrifio'n anghywir: "O ran hyn, mae’r elfen o Gynlluniau Ysgolion Iach Rhwydwaith Cymru sy’n ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant yn rhoi meini prawf clir ar gyfer cyflwyno cynnig cynhwysfawr i bob dysgwr. Nodir meini prawf diwygiedig a chryfach Gwobr Ansawdd Genedlaethol ar gyfer llesiant meddyliol a gwydnwch yn atodiad 2." Ni ddylai'r Cynllun Ysgolion Iach gael ei gysylltu â darpariaeth gyffredinol yn unig. Mae'r Cynllun Ysgolion Iach yn 'gynnig cyffredinol' yn nhermau cefnogi pob ysgol, ond mae meini prawf lles meddyliol y Cynllun Ysgolion Iach yn ystyried y dull ysgol gyfan, gan gynnwys holl agweddau eraill adran 6, gan gynnwys yr amgylchedd, darpariaeth wedi'i thargedu, lles staff ac ati.

Uwch dîm arwain yr ysgol a rôl y cydgysylltydd
Nid oes llawer yn y canllawiau i gefnogi iechyd meddwl a lles arweinwyr ysgolion. Dylai'r 'dull ysgol gyfan' fod yn rhan o gylch gwaith ehangach sy'n ystyried iechyd meddwl plant ac oedolion yn gyffredinol. Mae'r canllawiau'n glir ynghylch cyfrifoldebau'r Uwch Dîm Arwain ond nid ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r holl staff. Bydd manylion ychwanegol yn helpu arweinwyr a llywodraethwyr i roi dull ysgol gyfan cyson ar waith. Dylai gael ei arwain gan yr Uwch Dîm Arwain a thîm ehangach sy'n aelodau o adrannau amrywiol yr ysgol. Gall penodi un unigolyn fel cydgysylltydd arwain at ddiffyg perchenogaeth ymhlith gweddill y staff a allai deimlo mai'r cydgysylltydd sy'n gyfrifol am hynny. Dylai blaenoriaethau'r Uwch Dîm Arwain gynnwys cydweithio â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau trydydd parti eraill. Hefyd, dylid rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu â rhieni / gofalwyr ar lefel ehangach ac nid dim ond o ran y cwricwlwm.

Nid yw'n glir pa gymwysterau/gofynion proffesiynol sydd eu hangen er mwyn bod yn swyddog 'lles' penodedig. Sefydlu uned fugeiliol a gofyn bod y 'swyddog lles' yn gweithredu fel cyswllt/brocer rhwng y plentyn, yr ysgol a'r awdurdod lleol. Gallai rôl y corff llywodraethu gael ei hatgyfnerthu drwy ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu enwebu llywodraethwr arweiniol i fod yn gyfrifol am les.

Amseru'r diwrnod ysgol a chwarae
Gallai'r fframwaith ystyried amserlenni ysgolion, a sut y gall amseru dosbarthiadau yn ystod y diwrnod ysgol gefnogi lles disgyblion. Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar werth chwarae, chwaraeon a gweithgareddau awyr agored (anstrwythuredig a strwythuredig) mewn perthynas â gwella a diogelu lles dysgwyr, a'r angen i ddiogelu gofod awyr agored ac amser rhydd i blant o bob oedran. Mae gan blant yr hawl i chwarae (CCUHP, Erthygl 31) ac mae Egwyddor Gwaith Chwarae 1 yn dweud wrthym: 'Mae pob plentyn a pherson ifanc angen chwarae'.

Mae'r canllawiau'n tynnu sylw at bwysigrwydd "*cael yr amser a'r rhyddid i chwarae, dan do ac yn yr awyr agored*”. Fodd bynnag, mae'r canllawiau penodol ar amseroedd egwyl ysgolion ond yn cyfeirio at "*darpariaeth amser cinio amgen i ddysgwyr sydd â phroblemau synhwyraidd neu sy’n orbryderus*" ac "*mae pob agwedd ar y diwrnod ysgol yn cyfrannu at yr ymdeimlad o les da o adeg cyrraedd, yn ystod gwersi ac amseroedd chwarae/egwyl tan amser gadael*".

Dylid ychwanegu tystiolaeth bod yr ysgol wedi mabwysiadu polisi chwarae at y rhestr o Ffynonellau Tystiolaeth Posibl. Dylid ychwanegu mynediad at amgylchedd chwarae cyfoethog, fel y'i diffinnir yng nghanllawiau statudol ***Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae***.

Gallai Llywodraeth Cymru adolygu *Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009* i gynnwys disgyblion yn y weithdrefn ymgynghori ofynnol, yn unol ag Erthygl 12 o *CCUHP*. Mae hyn yn nodi bod gan blant yr hawl i fynegi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, ac i’w barn gael ei hystyried.

<u>Adnoddau a chymorth i ysgolion:</u>
Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (Academi Arweinyddiaeth) wedi bod yn ymchwilio i les arweinwyr a bydd yn datblygu strategaeth lles Cymru gyfan i arweinwyr mewn addysg.

<u>Dysgu proffesiynol, Dysgu Proffesiynol Parhaus a hyfforddiant:</u>
Mae angen rhoi system dysgu proffesiynol gyson a chyffredin ar waith i uwch arweinwyr a llywodraethwyr. Mae angen gwneud mwy o waith i ystyried sut y mae'r dull ysgol gyfan yn cysylltu â gofynion dysgu proffesiynol a Dysgu Proffesiynol Parhaus. Dylid rhoi prosesau ar waith i ddarparu atebolrwydd ynghylch amser staff a ph'un a ydynt o'r farn eu bod yn cael digon o amser i fodloni'r disgwyliadau ynghylch cefnogi dysgwyr, ei gilydd a chael mynediad at hyfforddiant ar iechyd meddwl.

Bydd hyfforddiant hunanwerthuso gan ddefnyddio'r gwerthusiad cenedlaethol a'r adnodd gwella yn darparu canllaw ymarferol ynghylch casglu, gwerthuso a dadansoddi o lygad y ffynnon, gydag amrywiaeth o weithgareddau i ddarparu tystiolaeth.

Mae'r Comisiynydd Plant wedi cyhoeddi canllaw 'Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru' a ddylai lywio'r hyfforddiant a ddarperir.

<u>Grwpiau agored i niwed</u>
Efallai na fydd myfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr o gefndiroedd BAME, yn gyfforddus yn trafod iechyd meddwl oherwydd y stigma pe bai angen cymorth pellach arnynt. 6.8 - Darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i

niwed: Nid yw'r adran wybodaeth yn gymesur â chynnydd yn y risg o iechyd meddwl gwael. Mae angen mwy o wybodaeth am ffyrdd o gefnogi'r grwpiau hyn o blant yn well.

<u>Llywodraethu</u>
Dylid sicrhau bod contractwr yn yr awdurdod lleol y gallant gysylltu ag ef i hwyluso'r cymorth.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y canllawiau hyn, ond byddai cynllun strategol penodedig yn hyrwyddo cysondeb ledled Cymru. Mae angen i hyn gyd-fynd hefyd â gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sydd wrthi'n datblygu strategaethau a darpariaethau yn gysylltiedig â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Ar hyn o bryd, mae'n teimlo bod hyn yn gwbl ar wahân i addysg. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys Cynrychiolydd Addysg.

Dylai pob ysgol gael cyngor ysgol fel rhan o'i strwythur; Cymdeithas Rhieni ac Athrawon ac ati
Pwy fydd yn dwyn rhanddeiliaid i gyfrif a sut, ac os na fydd rhanddeiliaid yn ymgysylltu, bydd angen sicrhau bod proses ar waith er mwyn i ysgolion roi gwybod am ei phryderon.

Mantais cynnwys Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fyddai eu gallu sefydledig i gydweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r ffaith eu bod yn cynnwys gwasanaethau addysg a thai hefyd. Mae eu statws statudol ac ymwneud statudol yr holl gyrff hyn yn golygu bod yr asiantaethau hyn i gyd 'o gwmpas y bwrdd' yn barod; a bod hyn yn cyd-fynd ag egwyddor yr adolygiad diweddar o'r amryw strwythurau rhanbarthol, gyda'r bwriad o atal cyrff ychwanegol rhag cael eu creu neu gyfrifoldebau tebyg iawn rhag cael eu rhannu dros fwy nag un Bwrdd.

Er bod prosesau hunanasesu, arolygiadau Estyn a chysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o gymorth, nid ydym o'r farn bod hyn yn ddigonol i sicrhau llywodraethu cadarn ac atebolrwydd. Er enghraifft, sut y caiff uwch aelodau staff eu cefnogi i ddewis hyfforddiant ar sail tystiolaeth neu ymarfer ar gyfer eu staff mewn maes cymhleth.

Ni cheir llawer o gynrychiolaeth gan y trydydd sector ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n cyfyngu ar yr ymwneud a'r atebolrwydd. Ni chaiff dysgwyr na rhieni/gofalwyr eu cynrychioli ar y cyrff hyn. Dylai fod gofyniad i gael eu dwyn i gyfrif yn uniongyrchol gan ddysgwyr, rhieni/gofalwyr, sefydliadau trydydd sector a rhanddeiliaid. Rydym o'r farn mai'r consortia addysg rhanbarthol sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu neu gomisiynu cymorth a hyfforddiant parhaus

ysgolion yn eu hardal. Gallai hyn hefyd gynnwys rhannu arferion da a chydgysylltu hyfforddiant.

Dylai pob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys dysgwyr, fod yn rhan o strwythurau llywodraethu er mwyn i ddull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles fod yn wirioneddol effeithiol. Fel rhan o'n model, bydd 'grŵp cynllunio gweithredu' yn rhan o'r broses, gydag aelodau o blith cymuned yr ysgol gyfan. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried y gofyniad hwn fel ychwanegiad defnyddiol er mwyn i ysgolion fodloni eu dyletswyddau llywodraethu.

Gweithredu

Byddai dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl yn golygu cynnwys pawb wrth asesu'r 'dirwedd leol'. Rydym yn siomedig mai dim ond uwch dîm arwain yr ysgol a nodir gan y canllawiau ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, nid yw'r canllawiau'n cynnwys dull clir i'r ysgol gysylltu â chymorth ehangach. Yn gywir ddigon, ysgolion sy'n gyfrifol am gwmpasu a'r dadansoddiad o'r bylchau, ond sut y byddwn yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r adnoddau i lenwi'r bylchau a nodir?

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau'n rhoi arweiniad cliriach i arweinwyr ysgolion i hyrwyddo cydweithredu rhwng ysgolion. Gall ysgolion elwa ar system o rannu arferion, profiadau ac adnoddau. Gallai hyn gael ei hwyluso gan yr awdurdod lleol neu'r consortia rhanbarthol.

Dylai ffrydiau gwaith Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (Help Cynnar a Chymorth Gwell; dull system gyfan o ymdrin â gwasanaethau niwroddatblygol; a mabwysiadu'r fframwaith Help Cynnar a Chymorth Gwell drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol) lywio'r dull ysgol gyfan. Byddai fframwaith NEST, yn disgrifio beth yw dull cefnogol, meithringar, cydgysylltiedig o gael help cynnar a chymorth gwell, yn ddiagram defnyddiol i ysgolion wrth ddeall eu lle o fewn y 'dull ysgol gyfan'.

Rydym o'r farn bod 'Adran 4.3: cymorth Lleol a Rhanbarthol' yn ychwanegiad defnyddiol at y canllawiau. Annog Llywodraeth Cymru i ystyried cynnwys dulliau cymorth pellach gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, o fewn y drafft terfynol:

- Awdurdodau Lleol:
  - Cymorth i gymuned yr ysgol gyfan (ac nid dim ond dysgwyr);
  - Ffynonellau cyllid a chymorth ariannol ychwanegol;
  - Cydgysylltu a rhannu arferion gorau;

    - Dangos eu harferion da eu hunain, gan arwain drwy esiampl drwy sefydlu datganiad o les ac adlewyrchu ac asesu anghenion lles eu gweithle eu hunain;
- Consortia addysg rhanbarthol:
    - Darparu arbenigedd i ysgolion ar iechyd meddwl a lles;
    - Darparu her angenrheidiol a chymorth wrth ddiwallu nodau iechyd meddwl a lles ysgolion.

Rhaid i'r cam cwmpasu gynnwys asiantaethau eraill i ddod i helpu ysgolion i wneud asesiadau cychwynnol. Mewn perthynas â'r gwaith cwmpasu, mae angen i ni warchod rhag unrhyw arferion sydd ond yn gweithredu fel meincnod yn ôl pob golwg.

<u>Cynlluniau Datblygu Ysgolion</u>
Yn awgrymu bod y gwerthusiad hwn yn dod yn ddigwyddiad a drefnir ar ddechrau blwyddyn academaidd, efallai fel rhan o broses sefydlu (wedi'i gyflwyno fesul dipyn ar gyfer dosbarthiadau arholiad), fel bod pob ysgol yn cymryd rhan ac yn cael canlyniadau i lywio'r CDY (para 6).

Yn falch bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cysylltiad priodol rhwng dull ysgol gyfan a'r gofynion presennol i ysgolion lunio Cynlluniau Datblygu Ysgolion. Dylai'r gydberthynas hon gael ei nodi'n glir o fewn y canllawiau terfynol er mwyn sicrhau y caiff ei chymhwyso'n ymarferol. Annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gofynion presennol Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 a'u canllawiau cyfatebol yn cyd-fynd â'r dull ysgol gyfan. Mae'r 'Diagram llif' (tudalen 19) yn dangos y bydd y cam cwmpasu yn llywio "Cynllun Gweithredu". Mae'r hyn a nodir o dan adran 6 ond yn sôn am y disgwyliadau y "Dylai cynlluniau ysgol bellach gynnwys llesiant emosiynol a meddyliol fel mater o drefn a dylent gael eu llywio gan y gofynion yn y canllawiau hyn" (tudalen 24). Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r disgwyliadau.

<u>Data</u>
Bydd datblygu a phrofi'r dangosyddion ar lefel ysgolion a disgyblion yn bwysig (er enghraifft yn seiliedig ar Feini Prawf Lles Meddyliol Drafft ar gyfer Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn Atodiad 2) i fonitro cynnydd pob ysgol yn erbyn y meini prawf (gyda mesuriad llinell sylfaen a mesuriad ailadrodd dros amser). Gallai'r dull hwn o fesur a gwerthuso cynnydd gael ei ychwanegu o dan Adran 5.3.

Nid oes unrhyw gyfeiriad penodol at gasglu data ar ddisgyblion unigol (na staff), er enghraifft drwy adnoddau fel PERMA neu PASS (Agweddau

Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol). Maent yn ddefnyddiol er mwyn galluogi ysgolion i dargedu darpariaeth (e.e. ELSA) ar gyfer disgyblion a nodir.

Mae angen ystyried y cyfeiriad at absenoliaeth, efallai mai'r hyn a fwriedir yma yw cyfraddau absenoldeb dysgwyr a staff. Mae'n annhebygol y bydd data dibynadwy ar absenoliaeth (neu bresenoliaeth, a all fod yn broblem hefyd).

CAMHS a chymorth proffesiynol arall

Mae angen pwysleisio y gall codi'r ffôn i gael cyngor gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl, wedi'i gyfuno â hyfforddiant, fod yn ddewis amgen i atgyfeiriad na all gweithwyr proffesiynol CAMHS ddelio ag ef yn uniongyrchol.

Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar:

Mae angen mwy o ffocws ar leoliadau blynyddoedd cynnar a sut y gall dull ysgol gyfan cael ei gymhwyso yn y cyfnod sylfaen, a rôl partneriaid allanol gan gynnwys sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio gyda rhieni a phlant ifanc.

Amgylchedd yr Ysgol

6.3 – Amgylchedd yr Ysgol: Nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch sut beth fyddai amgylchedd ysgol optimwm neu 'fannau diogel sy'n tawelu'.

Pontio

6.9 – Pontio: Gallai'r wybodaeth yn yr adran hon fod yn fwy penodol. Er enghraifft, nodi'n benodol i ba grwpiau o blant y gall y cyfnod pontio fod yn gyfnod 'arbennig o ansefydlog'. Mae'r cyfnod pontio yn gyfnod llawn straen i blant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd. Yn adran 6.9, byddai'n fanteisiol pe bai'r dull ysgol gyfan yn cynnwys cydnabyddiaeth bod cyfnodau pontio iechyd yn achosi gorbryder, gofid a phryder sylweddol i fyfyrwyr oedran ysgol, a all gael effaith ar eu haddysg, ond a all hefyd gael effaith ar weithio cydgysylltiedig rhwng yr ysgol a'r maes iechyd. 6.9 Pontio – Dylid cyfeirio at y cyfnod pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Pontio – a allech bwysleisio pwysigrwydd cymorth blynyddoedd cynnar - sefydlu partneriaethau rhwng rhieni a sefydliadau addysg.

Rhieni a gofalwyr:

Mae diffyg ffocws yn y canllawiau ar waith uniongyrchol gyda rhieni a gofalwyr a allai fod yn wynebu anawsterau iechyd meddwl.

Mae meithrin cydberthynas lawn ymddiriedaeth yn hanfodol, yn enwedig os bydd yn debygol y gallai sgyrsiau a allai fod yn heriol godi yn ddiweddarach. Os gall ysgolion dawelu pryderon ac os gall rhieni deimlo eu bod yn gallu siarad yn agored am ffactorau pwysig a all effeithio ar ddysgu ac ymddygiad plant yn yr ysgol, yna gall y ddwy ochr ganolbwyntio ar gydweithio i gefnogi'r plentyn.

Galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r angen am gorff cynrychioli rhieni ym mhob ysgol (CRhA, Grŵp Cymorth i Rieni neu Gyngor Rhieni) gyda llwybrau clir o fewn strwythur atebolrwydd yr ysgol.

Mae rhieni/gofalwyr yn rhan hanfodol o gymuned yr ysgol, e.e. sesiynau ar bynciau fel sut i siarad â'ch plentyn am iechyd meddwl, gwybodaeth iechyd meddwl gyffredinol a therapi gwybyddol ymddygiadol a arweinir gan rieni; adnoddau i'w helpu i ddeall materion. Mae llawer o ysgolion, yn arbennig yn ystod y pandemig presennol, wedi llwyddo i ymgysylltu â rhieni a theuluoedd i gefnogi lles dysgwyr a helpu i sicrhau nad yw plant ar eu hôl hi o ran dysgu. Dylai'r canllawiau gyfeirio at becyn adnoddau YGaTh Llywodraeth Cymru. Lle y bo'n bosibl, dylid cynnig rhaglenni addysg/DPP, gwybodaeth a digwyddiadau i rieni sy'n cefnogi staff â'u lles eu hunain a lles eu plant, fel y gellir meithrin gallu oedolion o ran cydberthnasau iach a lles ar draws cymuned yr ysgol.

Cydnabod arbenigedd sylweddol a chynhwysfawr cymorth teuluol ac adnoddau trydydd sector plant a allai gael, ac sydd yn cael ei ddefnyddio gan lawer o ysgolion i fynd i'r afael â materion.  Ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn drwy ddod â nhw i mewn i'r ysgol fel eu bod mor hygyrch â gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol, a gweithio'n agos gyda thîm rheoli'r ysgol. Dylid sicrhau cydberthynas agos rhwng ysgolion a gwasanaethau cymorth i deuluoedd wedi'u targedu a all fynd i'r afael ag anghenion ymarferol ac emosiynol teuluoedd sydd mewn trafferth.

Nid oes sôn am bwysigrwydd meithrin cydberthynas â'r teulu a'r lleoliad blynyddoedd cynnar a chydgysylltu â staff gofal iechyd (ymwelwyr iechyd) a throsglwyddo i nyrsys ysgolion neu staff y lleoliad blynyddoedd cynnar, ac ystyried ansawdd y 1,000 diwrnod cyntaf yn nhermau sicrwydd cydberthasoedd ac amhariadau. Gallai rhaglenni rhianta feithrin hyder rhieni i siarad â'u plentyn a chefnogi ei les a'i ddysgu yn y cartref.

<u>Y Trydydd Sector</u>

Ni roddir digon o bwyslais ar rôl y trydydd sector. Mae rôl y trydydd sector yn hanfodol i ddarparu cyfrwng ar gyfer lleisiau grwpiau o rieni a dysgwyr a dangynrychiolir. Gall y sector hefyd gynnig cymorth annibynnol sy'n canolbwyntio ar blant i blant a phobl ifanc, ac i athrawon a staff dysgu. Dylai'r trydydd sector hefyd gael ei gynnwys fel hwyluswyr arbenigol ar gyfer y maes allweddol o gefnogi llais plant a phobl ifanc yn y broses, yn arbennig wrth gefnogi arferion cynhwysol gydag ystod eang o blant ag anghenion ychwanegol.

<u>Gwasanaethau eirioli</u>

Ni wneir llawer o gyfeiriadau at bwysigrwydd a gwerth gwasanaethau eirioli annibynnol. Hoffem weld yr adran hon yn cael ei hatgyfnerthu a'i gwahanu oddi wrth yr holl wybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Argymell bod y cynlluniau

gweithredu'n cynnwys adran benodol ar 'Eiriolaeth' sy'n nodi sut y bydd ysgolion yn gwneud plant/pobl ifanc yn ymwybodol o unrhyw eiriolaeth a gynigir, a rhoi mynediad at Eiriolaeth annibynnol. Dylai darpariaeth gyffredinol gynnwys eiriolaeth i bob plentyn a pherson ifanc gydag arlwy eirioli clir.

Tudalen 27 - A6.4 "...dylai staff addysgu annog dysgwyr i drafod ac ystyried eu llesiant emosiynol a meddyliol eu hunain, a llesiant emosiynol a meddyliol pobl eraill." Aileirio hwn i'w gwneud yn glir na ddylid gorfodi pobl ifanc i drafod eu lles meddyliol mewn ystafelloedd dosbarth os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny.

<u>COVID-19/dysgu cyfunol</u>

Dylai'r canllawiau ddarparu arweiniad mwy penodol ar sut i gefnogi plant neu staff yn y sefyllfa COVID-19 sydd ohoni - yn arbennig delio â'r ofn o ddal/lledaenu'r feirws a rheoli'r gorbryder. Cysylltiad â chanllawiau 'dysgu cyfunol' Llywodraeth Cymru.

Dylai'r canllawiau ei gwneud yn glir y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael mynediad at gymorth ar gyfer eu lles yn yr ysgol, a gartref pan fydd hynny'n angenrheidiol. Gellid cynnwys hyn, er enghraifft, yn adran 6.5 Darpariaeth gyffredinol. Dylid ei gwneud yn glir y dylai 'gallu siarad am faterion' fod yn bosibl i ddisgyblion hyd yn oed pan fyddant gartref. (yn yr un modd ag A6.6. Darpariaeth wedi'i thargedu).

Un grŵp penodol o allai elwa'n fawr ar ddysgu cyfunol yw disgyblion yn y categori 'yn absennol o'r ysgol yn fynych a'r rhai sy'n wynebu unigrwydd ac ynysu' a gallent gael gafael ar y cymorth priodol pe bai protocolau ar waith i alluogi gweithgareddau ar-lein cydamseredig. Gallai datblygu strategaethau o'r fath fod yn ddefnyddiol yn y tymor hir, er mwyn sicrhau bod plant sy'n colli ysgol oherwydd salwch, gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl, barhau i elwa ar ddull ysgol gyfan. Tynnu sylw at yr angen am wasanaethau cymorth cyfunol yn ogystal â dysgu cyfunol, e.e. ymyriadau cwnsela/gwaith ieuenctid pan fyddant gartref

Gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys canllawiau ar gefnogi lles staff a disgyblion yn rhithiol.

Braf gweld cydnabyddiaeth o rôl staff ysgolion nad ydynt yn staff addysgu ym mywydau plant. Fodd bynnag, bydd dysgu cyfunol yn lleihau'r amser y bydd pobl yn ei dreulio gyda'r unigolion hyn yr ymddiriedir ynddynt. Mae'n hanfodol cael canllawiau a chyngor ar sut i barhau â'r cydberthnasau hyn mewn ffordd ddiogel tra bydd dysgu cyfunol yn parhau.

Dylid cyfeirio at ddysgwyr a addysgir yn y cartref o ddewis a'r effaith ar eu lles a'u dysgu.

Mae angen i'r ddogfen nodi disgwyliad clir, mewn amgylchiadau lle bydd angen i ddisgyblion aros gartref am gyfnod o amser, y dylai'r ysgol a lleoliadau eraill roi llawer mwy o ystyriaeth i gyflwyno agweddau iechyd a lles emosiynol ar y cwricwlwm.

Darpariaeth Cymraeg ac ieithoedd eraill
Mae'n hanfodol bod darpariaeth gyfartal rhwng y ddwy iaith ac y dylai'r ddarpariaeth adlewyrchu natur ieithyddol yr ysgol a'r dalgylch. Hyfforddiant i'r proffesiwn addysg er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y nod o sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Nid yw'r canllawiau'n hyrwyddo cyfleoedd i'r Gymraeg gael ei defnyddio fel iaith weithredol bob dydd yn ddigon da. Ceir diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal hon. Byddai'n fanteisiol pe bai cymorth a chyfleoedd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn y gweithle yn cael eu hymestyn ymhellach. Rwy'n disgwyl i'r canllawiau gadw at ofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg. Yn 'Atodiad 1' - dylid cyfeirio at Safonau'r Gymraeg ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall.

Mae'n bwysig sicrhau bod adnoddau ar gael i bobl nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf, fel ffoaduriaid, mewnfudwyr a chymunedau teithwyr, yn enwedig o gofio bod grwpiau lleiafrifol yn dueddol o gael profiadau mwy andwyol o ran iechyd meddwl.

## 5. Ymatebwyr

| Ymatebwr | % yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Iechyd (Byrddau Iechyd Lleol ac unigolion yn gweithio yn y sector iechyd) | 15.5 | 22 |
| Awdurdodau Lleol (gan gynnwys CLlLC, CCAC ac unigolion yn gweithio mewn awdurdodau lleol) | 13.4 | 19 |
| Ysgolion Cynradd:<br>Penygloddfa (Y Drenewydd)<br>Dyffryn Maesyfed<br>Moorland (Caerdydd) | 2.1 | 3 |
| Ysgolion Uwchradd:<br>Afon Taf (Merthyr Tudful)<br>Anhysbys (ond gan aelod o'r Uwch Dîm Rheoli)<br>Bryn Alyn (Wrecsam)<br>Abertawe<br>Y Fenni | 4.9 | 7 |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Brenin Harri'r VIII (Y Fenni)<br>Ysgol Friars (Bangor) | | |
| Ysgolion Arbennig:<br>Maesgwyn (Aberdâr) | 0.7 | 1 |
| Prifysgolion a cholegau:<br><br>Abertawe<br>Caerdydd<br>Aberystwyth<br>DECIPHer<br>Coleg Sir Benfro | 3.5 | 5 |
| Y Trydydd Sector | 10.6 | 15 |
| Unigolion (rhieni/gofalwyr/plant a phobl ifanc) | 17.6 | 25 |
| Cyrff cenedlaethol eraill (e.e. Comisiynydd Plant Cymru) | 22.5 | 32 |
| Anhysbys/dienw | 9.2 | 13 |
| **Cyfanswm** | **100** | **142** |

## 6. Y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae ymgynghori ar y fframwaith newydd ar gyfer dull ysgol gyfan wedi cynnig cipolwg ar y materion sy'n destun pryder. Mae hefyd wedi helpu i nodi diffygion yng nghynnwys y fframwaith drafft ac wedi rhoi cyfle i ni eu hystyried cyn iddo gael ei gyhoeddi. Caiff pob un o'r sylwadau a wnaed eu hystyried yn ofalus wrth lunio'r canllawiau terfynol.